

2021 Rhif (Cy. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494  
(Llanycil, Gwynedd) (Gwahardd  
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr  
Dros Dro) 2021

Gwnaed 31 Awst 2021

Yn dod i rym 2 Medi 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984<sup>(1)</sup>, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanycil, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Medi 2021.

### Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“exempted vehicle”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2021 No. (W. )

## ROAD TRAFFIC, WALES

The A494 Trunk Road (Llanycil, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021

Made 31 August 2021

Coming into force 2 September 2021

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A494 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984<sup>(1)</sup>, make this Order.

### Title and commencement

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Llanycil, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021 and this Order comes into force on 2 September 2021.

### Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“cerbyd esempt”) means any vehicle being used in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 12:00 ar 2 Medi 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw sy’n ymestyn o bwynt 50 metr o ffyrdd Dosbarth C i Parc hyd at bwynt 215 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt allanfa orllewinol cilfan Llanycil.

## Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

## Cymhwysyo

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

31 Awst 2021

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead trunk road that extends from a point 50 metres from Class C road to Parc to a point 215 metres south-west of the centre-point of the western exit of Llanycil layby;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 12:00 on the 2 September 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Prohibitions

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

## Application

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## Duration of this Order

**7.** The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

31 August 2021

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

